Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC(3) 03-08)

Dyddiad y Cyfarfod: **5 Chwefror 2008**
Amser y Cyfarfod: **8.15am**
Lleoliad y Cyfarfod: **Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

Cylch gwaith:

Cylch gwaith y Pwyllgor yw:-

1. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw *intra vires*;

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

2. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu

(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

3. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

4. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 15.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

5. Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;

(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu

(v) unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

6. Ni chaiff y Pwyllgor ystyried:

(i) unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft; na

(ii) unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae'n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

Aelodau:

Aelodau presennol y Pwyllgor yw:

Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)
Eleanor Burnham AC
Andrew RT Davies AC
Alun Davies AC
Paul Davies AC
Irene James AC
Sandy Mewies AC
Janet Ryder AC
Karen Sinclair AC

Cynghorwyr Cyfreithiol:
Gwyn Griffiths
Joanest Jackson

Y Tîm Clercod:

Clerc y Pwyllgor:
Anna Daniel

Dirprwy Glerc y Pwyllgor :
Olga Lewis

Swyddogion Cymorth Gweinyddol :
Hasera Khan
Runa Haque

Sut i gysylltu â ni:

Os hoffech ddod i gyfarfod Pwyllgor y Cynulliad, mae angen archebu sedd ymlaen llaw, naill ai drwy ffonio:

Llinell Archebu'r Cynulliad: 029 2089 8477

Neu drwy anfon e-bost i archebu@cymru.gsi.gov.uk

Gallwch gysylltu â'r pwyllgor drwy anfon e-bost i:

Legislation.comm@wales.gsi.gov.uk

Neu gallwch siarad ag Anna Daniel, y Clerc ar 029 2089 8144.

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 5 Chwefror 2008. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies, Paul Davies AC, Sandy Mewies AC, Janet Ryder AC a Karen Sinclair AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC103 - Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) (Diwygio) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 24 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 22 Chwefror 2008.

SLC104 - Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol a Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 24 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 15 Chwefror 2008.

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC101 – Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 18 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 12 Mai 2008.

SLC102 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 18 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

Ceir Adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1-2 i'r Adroddiad hwn.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

5 Chwefror 2008

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-03-08)

SLC101

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Teitl: Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008

Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008 yn gwneud darpariaeth gyffredinol o ran Cymru ynghylch cosbau penodedig am dramgwyddau penodol o dan Ran 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd1991.

Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae rheoliad 5(1) yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau electronig yn unol â'r amodau a nodir yn rheoliad 5(3). Un o'r amodau yn y testun Saesneg yw "the notice is available to that person to no lesser extent than it would be if given by means of a notice in printed form". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn nodi "o leiaf i'r un graddau â phe bai wedi ei roi iddo drwy gyfrwng hysbysiad ar ffurf brintiadwy". Ystyr "brintiadwy" yw "printable", yn hytrach na "printed" a chan y byddai modd printio cyfathrebiad electronig fel arfer, mae'r ddarpariaeth yn ddiystyr. Y term cywir fyddai "brintiedig". [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

5 Chwefror 2008

Ymateb y Llywodraeth:

Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008

Mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod a'i bod yn bwriadu cywiro'r testun Cymraeg drwy wneud Rheoliad diwygio byr cyn gynted ag y bo modd ond p'run bynnag heb fod yn hwyrach na diwedd Chwefror 2008, er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 12 Mai 2008 yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

Atodiad 2

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-03-08)

SLC102

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Enw: Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau yn gosod y gyfundrefn reoliadol ar gyfer gwaith stryd ac yn benodol yn pennu cynnwys y gofrestr, sut y dylid cyfnewid hysbysiadau rhwng awdurdodau strydoedd ac ymgymerwyr (e.e. cwmnïau nwy, dŵr, trydan a thelegyfathrebu) ynghylch gwaith wedi'i gynllunio neu waith parhaus ar strydoedd, a'r prosesau ar gyfer dynodi strydoedd yn strydoedd 'a warchodir', strydoedd 'ac iddynt anawsterau peirianyddol arbennig' neu strydoedd 'sy'n sensitif i draffig', neu gyfyngu ar waith stryd pellach gan ymgymerwyr mewn stryd benodol.

Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae'r cronicliad o'r pwerau'n cyfeirio at bwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond gan eu bod wedi'u cynnwys mewn Deddf yn 1991, fe'u rhoddwyd mewn gwirionedd i'r Ysgrifennydd Gwladol, a'u trosglwyddo'n ddiweddarach i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel yr eglurir yn y troednodyn. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Yn rheoliad 3(1), mae'r diffiniad Saesneg o "minor works" yn cynnwys y geiriau "or major works" ac nid oes dim yn cyfateb i hyn yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 3(1), mae'r diffiniad o "gwaith safonol" yn defnyddio "(g)weithiau pwysig" i gyfateb i "major works", er mai "gwaith pwysig" yw'r term diffiniedig a bennwyd i gyfateb i "major works". Unwaith y bydd term penodedig wedi'i ddiffinio, mae'n bwysig cydymffurfio â'r defnydd o'r term hwnnw. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 3(1), mae'r diffiniad Saesneg o "urgent works" yn cynnwys y geiriau "(or which the person responsible for the works believes on reasonable grounds to be required)" ac nid oes dim yn cyfateb i hyn yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn y tabl a fewnosodwyd gan reoliad 4(4), nid yw eitem 9 yn y testun Saesneg yn ymddangos yn y testun Cymraeg, ac o ganlyniad nid yw rhifau'r eitemau diweddarach yn cyfateb i'r eitemau yn y testun Saesneg. Hefyd, nid yw'r gair "street" yng ngholofn gyntaf eitem 10 yn y testun Saesneg yn ymddangos yn yr eitem a ddylai gyfateb iddi yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 4(6)(a), mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "information certified by, or with the authorisation of, the Secretary of State for Transport" ond mae'r Gymraeg yn cyfeirio at "gwybodaeth a gafodd ardystiad neu awdurdodiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth". Felly, tra bo'r testun Saesneg yn awgrymu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio'r wybodaeth yn bersonol neu'n awdurdodi rhywun arall i wneud hynny ar ei rhan neu ar ei ran, mae'r testun Cymraeg yn awgrymu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio neu'n awdurdodi'r wybodaeth yn bersonol. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 5(1), mae'r testun Saesneg yn cynnwys croesgyfeiriad at adran 58 sydd yn absennol o'r testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 14(1)(c), mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "apparatus…in the street", ond mae'r Gymraeg yn cyfeirio at "offer … ar y stryd" *["apparatus <u>on</u> the street"]* Ar y llaw arall, mae rheoliad 14(3)(c) yn gywir yn defnyddio "offer yn y stryd" i gyfateb i "apparatus in the street". [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 15(1)(b), defnyddiwyd "priodoldeb" i gyfateb i "integrity". Mae "cyfanrwydd" yn ddewis mwy addas sy'n cael ei gynnig gan Eiriadur yr Academi. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 16(7) ceir cyfres o dermau diffiniedig, ac yn y diffiniad o "bus lane", defnyddiwyd yr ymadrodd "those Regulations". Y Rheoliadau y cyfeirir atynt yw'r rheini a grybwyllir yn y paragraff blaenorol, ac a ddiffinnir yn rheoliad 3(1). Fodd bynnag, gan fod rhestrau o ddiffiniadau o'r fath yn ymddangos yn nhrefn yr wyddor sy'n berthnasol i bob iaith, mae maint y bwlch yn sylweddol fwy rhwng y ddau gyfeiriad at y Rheoliadau yn y testun Cymraeg, sy'n gwneud y bwriad yn llawer llai amlwg. Pe bai'r testun Saesneg wedi defnyddio'r term diffiniedig "the 2002 Regulations", byddid wedi osgoi'r diffyg eglurder yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(v), (vi) a (vii)]

Mae testun Cymraeg rheoliad 19 yn cynnwys yr ymadrodd "cyn y dyddiad y daw i rym arno" (sy'n ymddangos fel pe bai'n cyfeirio at yr hysbysiad), tra bo'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "before the date on which they come into force (sy'n ymddangos fel pe bai'n cyfeirio at y Rheoliadau). Mae angen datrys yr ansicrwydd hwn. [Rheol Sefydlog 15.2(v), (vi) a (vii)]

Mae Paragraffau 7 a 17 yr Atodlen yn cyfeirio at Weithrediaethau Trafnidiaeth i Deithwyr. Gan na cheir Gweithrediaethau o'r fath yng Nghymru, nid yw'r darpariaethau hyn yn addas. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Gan fod cynifer o ddiffygion, dylid gwneud ddeddfwriaeth gywiro cyn gynted â phosibl.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

5 Chwefror 2008

Ymateb y Llywodraeth:

Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008

Mae'r Llywodraeth wedi mynegi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod a'i bod yn bwriadu cywiro'r testun Cymraeg drwy ddirymu ac ail-wneud y Rheoliadau cyn gynted ag y bo modd ond p'run bynnag heb fod yn hwyrach na diwedd Chwefror 2008, er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2008 fel y bwriadwyd yn wreiddiol.